


Dysgu'n Drawsgwricwlaidd

Daearyddiaeth

- Creu map o'r ysgol yn defnyddio HWB gan ddylunio a chreu allwedd ar y map a nodi pa safleoedd maent yn cynnal yr arbrawf.
- Sgiliau Trawsgwricwlaidd**
- Cynhyrchu: Creu** - Creu, casglu a chyfuno ystod o destun, delwedd, sain, animeiddiad a fideo at ddibenion penodol.
 - Ysgrifennu: Ysgrifennu'n gywir: Iaith** - Defnyddio geirfa briodol, gan gynnwys geiriau ac ymadroddion pwnc penodol.
 - Sgiliau: Deall lleoedd, amgylcheddau a phrosesau** - Adnabod beth sy'n debyg ac yn wahanol er mwyn disgrifio, cymharu a chyferbynnu lleoedd ac amgylcheddau.



Y Tywydd

Gwyddoniaeth

- Cynnal arbrawf teg o amgylch yr ysgol yn mesur cyflymder y gwynt a'r tymheredd mewn safleoedd gwahanol am gyfnod o bythefnos ar gyfnodau gwahanol yn ystod y dydd.
- Sgiliau Trawsgwricwlaidd**
- Defnyddio sgiliau mesur: Tymheredd** - Mesur a chofnodi'r tymheredd lle ceir darlenniadau positif a negatif.
 - Sgiliau: Datblygu** - Yr offer a'r technegau y mae eu hangen ar gyfer yr ymholiad.
 - Gwirio arsylwadau a mesuriadau trwy eu hailadrodd er mwyn casglu data dibynadwy.

Technoleg Gwybodaeth

- Angen golygu a darlledu Rhagolygon y tywydd i'r dosbarth gyfan wedi cwblhau er mwyn bod disgyblion eraill medru gwerthuso gwaith eu cyfoedion.
- Sgiliau Trawsgwricwlaidd**
- Cynhyrchu: Gwerthuso a gwella** - Esbonio'r rhesymau am gynllun a chynnwys eu gwaith eu hunain.
 - Llafaredd: Datblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau: Gwranddo** - Gwranddo'n astud ar gyflwyniadau gan ddefnyddio technegau i gofio'r prif bwyntiau.
 - Sgiliau: Creu a throsglwyddo gwybodaeth** - creu ystod o gyflwyniadau gan gyfuno amrywiaeth o wybodaeth a chyfryngau.

Mathemateg

- Dadansoddi'r data a gasglwyd yn ystod yr arbrawf gan greu graff ac yna labeli pob echelin a gosod teitl addas.
- Sgiliau Trawsgwricwlaidd**
- Ysgrifennu: Trefnu syniadau a gwybodaeth: Strwythur a threfn** - Defnyddio nodweddion sy'n dangos strwythur yr ysgrifennu.
 - Defnyddio sgiliau data: Casglu a chofnodi data** - Cyflwyno data drwy ddefnyddio: siartiau bar, siartiau data wedi'u rhannu i grwpiau, graffiau llinell a graffiau trawsnewid.

Cymraeg/ Saesneg

- Cynllunio, recordio a golygu rhagolwg o'r tywydd ar lafar ar gyfer bwletin teledu.
- Sgiliau Trawsgwricwlaidd**
- Cynhyrchu: Creu** - Creu, casglu a chyfuno ystod o destun, delwedd, sain, animeiddiad a fideo at ddibenion penodol.
 - Llafaredd: Datblygu a chyflwyno gwybodaeth: Siarad** - esbonio gwybodaeth a syniadau, archwilio a defnyddio ffyrdd o argyhoeddi.

Model Thema Seiliedig

Manteision

- Yn nwylo athrawon hyderus a gwybodus, mae'r dull yn addysgu ac yn ysgogi disgyblion.
- Mae'r model yn galluogi cynnwys mwy na'r uchafswm o 2 i 3 pwnc sydd fel arfer yn cael ei argymell.

Anfanteision

- Dewis y pynciau cywir i ymgorffori dysgu'n trawsgwricwlaiddyn hollbwysig neu bydd cyfyngiad yn yr hyn a dysgir gan y disgyblion.
- Dim yn addas i bobbwnc – rhaid bod y pynciau a dewisir yn dyfnhau dealltwriaeth y thema.

Trawsgwricwlaidd:

Manteision Addysgu'n trawsgwricwlaidd

- Modd addasu'r addysgu i sefyllfaoedd a phrosiectau perthnasol sy'n perthnasol i fywydau pob dydd disgyblion – Barnes (2015) a McAteer (2012)
- Paratoi disgyblion i ddatblygu meddylfryd o ddefnyddio ei sgiliau mewn amryw o sefyllfaoedd bob dydd
- Priodoli sgiliau datrys problemau sy'n paratoi pobl ifanc am swyddi'r dyfodol sydd heb hyd yn oed eu creu eto
- Personoli addysg yn cynyddu ymrwymiad disgyblion i'r gwaith a magu agweddau mwy positif

Anfanteision Addysgu'n Trawsgwricwlaidd

- Rhaglenni megis addysgu'n trawsgwricwlaidd heb y safonau uchel i asesu yn ei herbyn ac yn arwain at addysgu a dysgu diog – Gardener (1993)
- Angen cyfyngu addysgu'n trawsgwricwlaidd i 2 neu 3 o bynciau er mwyn cael yr effaith fwyaf – Barnes (2012)
- Diffyg profiad o'r dull trawsgwricwlaidd o fewn y gweithlu naill ai fel disgyblion neu trwy hyfforddiant fel athrawon – Barnes a Shirley (2007)


Dyfodol Llwyddiannus - Yr Athro Donaldson

- Penodi llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol fel meysydd trawsgwricwlaidd fel rhan o gwricwlwm newydd i Gymru
- Angen adeiladu ar y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd presennol
- Pwysleisio pwysigrwydd datblygu lefelau cymhwysedd uchel yn y sgiliau yma

“Mae cwricwlwm integredig lawn yn cynnwys llif esmwyth o un maes i'r llall.” (Pound a Lee, 2011: 100).

“Dylai athrawon manteisio ar gyfleoedd sy'n codi'n naturiol yn y cwricwlwm i gefnogi dysgu llythrennedd a rhifedd. Serch hynny, ni ddylid ailadrodd tasgau llythrennedd a rhifedd ymhob wers beth bynnag yw'r pwnc.” (Estyn, 2010: Q6).

(Anderson, 2001)
<https://everettcc.instructure.com/courses/119421/5/pages/blooms-taxonomy>



Model

Rhyngddisgyblaethol

Manteision

- Y gwahanol meysydd yn medru cynnig dehongliadau gwahanol o'r un problem.
- Annog cydweithio ac atebion grŵp gan ddisgyblion megis cyflwyniad neu perfformiad.
- Annog ymatebion creadigol wrth ddisgyblion ac yn annog dychymyg athrawon wrth ddysgu.

Anfanteision

- Defnyddio'r dull yn heriol – angen hyder mewn nifer o feysydd a dull addysgu hyblyg a chynhwysol.
- Defnyddio mewn gormod o bynciau yn arwain at syniadau sydd ond wedi eu deall yn rhannol gan ddisgyblion.

“Wrth i ni wynebu dyfodol o newidiadau esbonyddol ac anrhagweladwy, mae angen dulliau trawsgwricwlaidd sydd yn annog datrysiadau grŵp, dysgu ar y cyd, cyfuniadau creadigol a datblygiad dysgwyr annibynnol.” (Barnes, 2015: 81).

Iechyd a Lles

- Sefydlu ysgol iach (prosiect dosbarth).

Cynhyrchu: Creu – creu, casglu a chyfuno ystod o destun, delwedd, sain, animeiddiad a fideo at ddibenion penodol.

Cynhyrchu: Gwerthuso a gwella – creu grwpiau a rhannu gwaith rhyngddynt i ganiatau adolygu gwaith.

Llafaredd: datblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau: cydweithio a thrafod – cyfrannu i drafodaeth grŵp, gan gymryd rhywfaint o gyfrifoldeb dros gyflawni'r dasg yn dda.

Llafaredd: ymateb i'r hyn a ddarllenwyd: ymateb a dadansoddi – cydgasglu a threfnu gwybodaeth a syniadau o ffynonellau gwahanol.

Defnyddio sgiliau data: casglu a chofnodi data, cyflwyno a dadansoddi data, dehongli canlyniadau – echdynnu a dehongli gwybodaeth o ystod gynyddol o ddiagramau, amserlenni a graffiau.

Dylunio a Thechnoleg

- Ysgrifennu ryseitiai ar gyfer ein prosiect Ysgol iach gan ddefnyddio HWB.**
Ysgrifennu: Trefnu syniadau a gwybodaeth: Strwythur a Threfn – defnyddio nodweddion sy'n dangos strwythur yr ysgrifennu.
Cynhyrchu: Cynllunio, cyrchu a chwilio – creu cynllun ysgrifenedig gan ddefnyddio templed a ddarperir.
- Coginio ambell pryd o fwyd mewn parau – Mesur, Pwyso cynhwysion.**
Defnyddio sgiliau mesur: Hyd, pwysau, cynhwysedd – defnyddio trawsnewidiadau e.e ¼ km = 250m
Defnyddio mesurau safonol ac unedau S.I e.e. Kg, S, N, m.
Sgiliau: Dylunio - datblygu manyleb/rysâit syml ar gyfer eu cynhyrchion gan nodi'u bwriadau a'u dull gweithredu.
Sgiliau: Gwnued - mesur, marcio, torri, siapio, uno, pwyso a chymysgu ystod o ddefnyddiau a chynhwysion, gan ddefnyddio offer, cyfarpar a thechnegau priodol.



Bwyta'n iach

Mathemateg

- Cyfrifo mewnbnw caloriau dyddiol menywod a dynion ac yna cyfrifo sawl pryd iachus gall menywod a dynion mwynhau gan gymharu sawl pryd afiach gall menywod a dynion mwynhau.**
Cynhyrchu: cynllunio, cyrchu a chwilio – addasu allweddeiriau a thechnegau chwilio i ddod o hyd i wybodaeth berthnasol; dechrau cyfeirio at ffynonellau gwybodaeth a ddefnyddiwyd yn eu gwaith.
- Casglu data wrth athrawon a disgyblion y dosbarth er mwyn llunio graff o mewnbnw caloriau dyddiol y disgyblion a'r athrawon.**
Llafaredd: Datblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau: Cydweithio a thrafod – ychwanegu at a datblygu syniadau dysgwyr eraill mewn trafodaethau grŵp e.e. drwy holi cwestiynau i archwilio ymhellach.
- Defnyddio sgiliau data: Casglu a chofnodi data, cyflwyno a dadansoddi data, dehongli canlyniadau** – cyflwyno data drwy ddefnyddio: siartiau bar, siartiau data wedi'u rhannu i grwpiau, graffiau llinell a graffiau trawsnewid.